Fersiwn	7
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Ebrill 2023



Iechyd a Diogelwch 12

Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.
This document is available in English

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	**Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle**
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	01443 425524
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	Medi 1996
Swyddog Adolygu	Stephen Humphreys
Dyddiad Diwygio	Ebrill 2025
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	2008
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Medi 1996	Gerwyn Hogben
Gorffennaf 2002	Gerwyn Hogben
Chwefror 2010	Mike Murphy
Awst 2016	Mike Murphy
Awst 2018	Mike Murphy
Mawrth 2021	Mike Murphy
Ebrill 2023	Stephen Humphreys
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi'i chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	
Carfan y Rheolwyr Corffroaethol	
Cabinet	

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD 1
2. DATGANIAD POLISI 1
CANLLAWIAU POLISI 2
3. CYMHWYSO, DIFFINIADAU AC EITHRIADAU 2
4. CYNGOR 3
ATODIAD A 4
NODIADAU CYFARWYDDYD AR GYFER RHEOLWYR 4
CYFLWYNIAD 4
CYNNAL A CHADW (RHEOLIAD 5) 4
AWYRU (RHEOLIAD 6) 4
TYMHEREDD MEWN GWEITHLEOEDD DAN DO (RHEOLIAD 7) 5
GOLEUO (RHEOLIAD 8) 5
GLENDID A DEUNYDDIAU GWASTRAFF (RHEOLIAD 9) 5
MAINT A LLE YSTAFELLOEDD (RHEOLIAD 10) 6
GWEITHFANNAU A SEDDAU (RHEOLIAD 11) 6
LLORIAU A LLWYBRAU TRAFFIG (RHEOLIAD 12) 7
CWYMPIADAU A GWRTHRYCHAU SY'N CWYMPO (RHEOLIAD 13) 7
FFENESTRI A DRYSAU, GATIAU, A WALIAU TRYLOYW, NEU LED DRYLOYW (RHEOLIAD 14) 9
FFENESTRI, FFENESTRI TO AC AWYRYDDION (RHEOLIAD 15) 10
GALLU I LANHAU FFENESTRI ayyb YN DDIOGEL (RHEOLIAD 16) 11
TREFNIADAETH AYYB LLWYBRAU TRAFFIG (RHEOLIAD 17) 11
DRYSAU A GATIAU (RHEOLIAD 18) 12
GRISIAU SYMUDOL A LLWYBRAU SYMUDOL (RHEOLIAD 19) 12
CYFLEUSTERAU YMOLCHI A THAI BACH (RHEOLIADAU 20 A 21) 13
DŴR YFED (RHEOLIAD 22) 14
LLETY AR GYFER DILLAD (RHEOLIAD 23) 15
CYFLEUSTERAU NEWID DILLAD (RHEOLIAD 24) 15
CYFLEUSTERAU AR GYFER GORFFWYS AC I FWYTA PRYDAU BWYD (RHEOLIAD 25) 15
POBL AG ANABLEDDAU (RHEOLIAD 25A) 16
RHESTR WIRIO I REOLWYR 17

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Polisi hwn wedi cael ei lunio wrth ymateb i Reoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch, a Lles) (neu 'Y Rheoliadau' o hyn ymlaen yn y ddogfen).

2. DATGANIAD POLISI

2.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod arno ddyletswydd i ddiogelu'i weithwyr cyflogedig rhag sefyllfaoedd a allai olygu perygl i'w hiechyd, diogelwch, a lles o bosibl.

2.2 Bydd y Cyngor yn cymryd pob un o'r holl gamau rhesymol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch, a lles gweithwyr cyflogedig pan fyddan nhw yn y gwaith, yn ogystal ag eraill sy'n cael eu heffeithio gan ei weithgarwch. I'r perwyl yna, bydd y Cyngor yn cymryd pob un o'r holl gamau rhesymol er mwyn gweithredu a rhoi ar waith y safonau a nodir o dan y Rheoliadau.

2.3 Mae nodiadau arweiniad penodol ar gyfer rheolwyr yn rhoi manylion am isafswm y gofynion sylfaenol (safonau) y mae'n rhaid eu rhoi ar waith yn y gweithle ynghlwm wrth y datganiad polisi hwn yn Atodiad A.

2.4 Mae'r cyfrifoldeb am weithredu gofynion y Polisi hwn, a pharatoi strategaeth gweithredu, yn perthyn i bob Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth.

CANLLAWIAU POLISI

3. CYMHWYSO, DIFFINIADAU AC EITHRIADAU

3.1 Mae'r Rheoliadau yn gymwys i weithleoedd.

3.2 Mae gweithle yn unrhyw adeilad neu safle (sydd ddim yn safle domestig) sydd ar gael i unrhyw berson yn fan gwaith, gan gynnwys unrhyw le yn yr adeilad neu'r safle y mae gan berson sy'n gweithio yno fynediad ato wrth weithio, ac hefyd unrhyw ystafell, cyntedd, coridor, grisiau, ffordd, neu fan arall a gaiff ei defnyddio'n fynedfa i, neu allanfa o'r gweithle, neu lle y caiff cyfleusterau eu darparu ar gyfer eu defnyddio mewn cysylltiad â'r gweithle, ac eithrio ffordd gyhoeddus.

Mae'r diffiniad, gan hynny, yn eang iawn. Bydd yn berthnasol nid yn unig i'r ffatrïoedd, swyddfeydd, a siopau traddodiadol, ond hefyd i ysgolion, ysbytai, theatrau, rhannau cyffredin adeiladau sy'n cael eu rhannu, ffyrdd preifat ar ystadau diwydiannol, gwestai, cartrefi, ayyb; bron mewn unrhyw le mae pobl yn gweithio mewn gwirionedd, heblaw am adeiladau, neu safleoedd domestig (dyw gweithwyr cartref, gan hynny, ddim yn dod o dan y Rheoliadau).

Mewn rhai adeiladau'r Cyngor – cartrefi gofal, canolfannau ac ysgolion, er enghraifft, fe fydd pobl megis cleientiaid, y cyhoedd, disgyblion, ayyb yn bresennol, hynny yw, pobl nad ydyn nhw yn y gwaith. Bydd y Rheoliadau yn dal yn i fod yn gymwys o hyd, serch hynny, gan y bydd gweithwyr cyflogedig yn yr adeiladau a'r safleoedd yma hefyd.

3.3 Er nad yw 'adeiladau a safleoedd domestig' yn dod o dan y Rheoliadau, o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 mae'n dal yn ofynnol i'r Cyngor, ac yntau'r cyflogwr, ofalu am iechyd a diogelwch ei weithwyr. Mae gan y Cyngor ddyletswydd o hyd, gan hynny, i ddarparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant ac offer diogel ayyb i weithwyr pan fyddan nhw'n gweithio yng nghartrefi pobl eraill, neu yn eu cartrefi eu hunain.

3.4 Yn ogystal ag adeiladau a safleoedd domestig, mae'r canlynol hefyd wedi'u heithrio o'r Rheoliadau:

- cerbydau ffordd gweithredol, llongau, hofranlongau, trenau, a cherbydau ffordd – ac eithrio bod Rheoliad 13 yn gymwys i awyrennau, trenau, a cherbydau ffordd a'r rheiny yn sefydlog mewn gweithle (ond nid ar ffordd gyhoeddus)
- mwyngloddiau, chwareli, neu safleoedd eraill sy'n cloddio/echdynnu mwynau (mae deddfwriaeth benodol i'r sector yn berthnasol i'r gwaith yma)

- safleoedd adeiladu (gan gynnwys swyddfeydd safle) a mannau mewn gweithleoedd lle mae gwaith adeiladu yn mynd rhagddo os oes ffensys o amgylch iddo (mae Rheoliadau Adeiladu (Dylunio, Cynllunio, a Rheoli) yn gymwys a pherthnasol i safleoedd adeiladu);
- safleoedd gwaith dros dro - ac eithrio bod Rheoliadau 20 i 25 mewn perthynas â chyfleusterau ystafell ymolchi, cyfleusterau ymolchi, dŵr yfed, llety dillad, cyfleusterau newid, a chyfleusterau ar gyfer gorffwys a bwyta prydau bwyd yn gymwys cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol
- gweithleoedd amaethyddiaeth, coedwigaeth sydd yn yr awyr agored ac i ffwrdd o brif adeiladau'r fenter – ac eithrio bod Rheoliadau 20 i 22 mewn perthynas â chyfleusterau ystafell ymolchi, cyfleusterau golchi, a dŵr yfed yn gymwys cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol

4. CYNGOR

4.1 Mae modd cael cyngor ar weithredu'r polisi yma oddi wrth y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY. Rhif ffôn: 01443 425531.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh

ATODIAD A

NODIADAU CYFARWYDDYD AR GYFER RHEOLWYR

CYFLWYNIAD

Nod y Nodiadau yma yw helpu rheolwyr i nodi'r safonau a ddylai fod ar waith yn y gweithle. Mewn rhai achosion, mae'r gofynion yn debyg i ddeddfwriaeth gynharach megis Deddf Swyddfeydd, Siopau a Mangreoedd Rheilffyrdd 1963, neu fe allan nhw fod yn safonau sy'n cael eu hystyried yn rhesymol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

CYNNAL A CHADW (RHEOLIAD 5)

A yw'r canlynol yn cael eu cynnal a'u cadw bob hyn a hyn yn rheolaidd ar adegau priodol?

(i) Offer a dyfeisiau y byddai gwall, pe bai un yn datblygu ynddyn nhw, yn arwain at fethu â chydymffurfio â'r Rheoliadau. Er enghraifft:

- goleuadau argyfwng
- ffensys
- offer sefydlog ar gyfer glanhau ffenestri
- mannau angori ar gyfer harneisiau diogelwch
- dyfeisiau er mwyn cyfyngu ar agor ffenestri
- drysau modur
- grisiau symudol neu lwybrau symudol

(ii) Systemau awyru mecanyddol wedi'u darparu er mwyn cydymffurfio â Rheoliad 6.

A oes system ar gyfer sicrhau y caiff diffygion a allai fod yn beryglus eu hunioni?

A oes cofnod addas yn cael ei gadw?

AWYRU (RHEOLIAD 6)

A oes awyru effeithiol ac addas?

Os caiff system awyru fecanyddol ei defnyddio:

- a oes gweithdrefn gynnal a chadw, gan gynnwys archwilio?

- a yw dyfais weladwy neu glywadwy ar gyfer rhybuddio am fethiant yn angenrheidiol? (fydd hyn ddim yn berthnasol yn y rhan fwyaf o weithleoedd; bydd yn berthnasol pan fyddai methiant i'r system awyru yn debygol o arwain at niwed i weithwyr).

TYMHEREDD MEWN GWEITHLEOEDD DAN DO (RHEOLIAD 7)

A oes tymheredd rhesymol (NODER: Ac eithrio ystafelloedd rhewi ayyb) fel a ganlyn:

- 16ºC o leiaf ar gyfer gweithleoedd normal?
- 13ºC o leiaf ar gyfer gwaith sy'n gofyn am ymdrech gorfforol sylweddol?
- cymryd pob cam rhesymol er mwyn atal tymereddau anghyfforddus o uchel?

A oes thermomedrau ar gael er mwyn cofnodi tymereddau?

GOLEUO (RHEOLIAD 8)

A yw'r goleuo'n addas ac yn ddigonol:

- i atal straen llygaid?
- i alluogi pobl i symud o gwmpas yn ddiogel?

A yw'r goleuo, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn naturiol?

A gaiff ffenestri, a ffenestri to, eu glanhau yn rheolaidd?

A gaiff goleuadau argyfwng eu darparu lle byddai colli goleuni yn peri perygl difrifol?

GLENDID A DEUNYDDIAU GWASTRAFF (RHEOLIAD 9)

A yw gweithleoedd, dodrefn, eitemau dodrefnu a ffitiadau yn cael eu cadw yn ddigon glân?

A oes modd cadw arwynebau lloriau, waliau a nenfydau yn ddigon glân?

A gaiff gollyngiadau a gwaddodion eu symud oddi yno, neu'u glanhau cyn gynted ag y bo modd?

A gaiff lloriau sy'n agored i gael eu halogi eu selio neu'u haraenu mewn ffordd briodol?

Wrth i ddeunyddiau glanhau gael eu defnyddio, a yw Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael eu hystyried yn ôl yr angen?

MAINT A LLE YSTAFELLOEDD (RHEOLIAD 10)

A oes digon o ofod/lle i ganiatáu i bobl ac offer symud yn rhydd?

Yn isafswm, rhaid bod 11 metr^3 fesul person, hynny yw:

- mesur cyfaint yr ystafell (hyd x lled x uchder*) (*uchder uwchben 3 metr fel 3 metr)
- rhannu'r cyfaint â nifer y staff sy'n gweithio yn yr ystafell fel arfer
- os yw'r canlyniad yn llai nag 11 metr ciwbig, mae gormod o bobl yn yr ystafell

NODER: Fydd yr arwynebedd llawr fesul person fel y nodir uchod ddim yn rhoi digon o ofod/lle gwag bob amser. Mae'n bosibl y bydd angen i ystafelloedd fod yn fwy, neu fod â llai o bobl yn gweithio ynddyn nhw, gan ddibynnu ar y fath ffactorau â chynnwys a chynllun ffisegol yr ystafell a natur y gwaith. Os bydd lle a gofod yn gyfyngedig, bydd cynllunio'r gweithle yn arbennig o bwysig.

GWEITHFANNAU A SEDDAU (RHEOLIAD 11)

A yw'r weithfan wedi'i threfnu fel bo modd gwneud gorchwylion a thasgau yn ddiogel, ac yn gyfforddus?

A oes:

- digon o ofod a lle i symud yn rhydd?
- digon o ofod agored ac heb rwystrau?

A oes sedd yn cael ei darparu lle mae rhaid gwneud y gwaith yn eistedd?

A yw'r sedd yn addas ar gyfer pob person (gan gynnwys cynhaliaeth ddigonol ar gyfer y cefn is)?

A oes stôl droed yn cael ei darparu ar gyfer unrhyw weithiwr sydd ddim yn gallu rhoi'i draed yn wastad ar y llawr?

LLORIAU A LLWYBRAU TRAFFIG (RHEOLIAD 12)

A yw'r lloriau a'r llwybrau traffig wedi'u hadeiladu'n gadarn? (hynny yw o gryfder, a sefydlogrwydd addas ar gyfer y llwythi neu draffig?)

A yw'r lloriau neu'r llwybrau traffig yn rhydd rhag tyllau, llethrau, arwynebau anwastad neu lithrig sy'n debygol o achosi:

- llithro, baglu neu gwympo
- i rywun ollwng neu golli rheolaeth ar unrhyw beth sy'n cael ei drin â llaw
- i rywun golli rheolaeth ar gerbydau neu lwythi

Er enghraifft:

- yr arwyneb yn gallu gwrthsefyll pobl yn llithro pan yn wlyb
- dulliau rheoli os caiff deunydd ei arllwys lle mae ei ollwng yn bosibl
- trefniadau ar gyfer ymdrin ag arllwysiadau
- trefniadau er mwyn lleihau risgiau sy'n deillio o eira ac iâ
- gardiau ar ochrau agored grisiau (o ran isafswm, y gledr uwch ar uchder o 900 milimetr, neu ddwy gledr, y naill yn uwch na 900 milimetr a'r llall yn is)
- canllaw sylweddol ar un ochr o leiaf o bob grisiau (ar y ddwy ochr os oes risg benodol, er enghraifft os ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n aml iawn, neu os ydyn nhw'n arbennig o lydan

CWYMPIADAU A GWRTHRYCHAU SY'N CWYMPO (RHEOLIAD 13)

A oes rhwystr diogel a chadarn yn cael ei ddarparu lle;

- gallai unrhyw un gwympo dau fetr neu'n fwy;
- mae ffactorau eraill sy'n cynyddu risg cwympo, neu anaf difrifol, (er enghraifft, llwybr traffig yn mynd heibio yn agos i'r ymyl lle mae niferoedd mawr o bobl yn bresennol, neu le gallai person gwympo ar arwynebau miniog neu beryglus, neu i mewn i sylweddau peryglus, ayyb)

A yw'r rhwystr yn ddigon uchel, ac wedi'i lenwi i mewn yn ddigonol er mwyn atal pobl neu wrthrychau rhag cwympo? O ran isafswm, dau ganllaw man lleiaf, sef cledr uwch a chledr ganol, gyda'r gledr uwch ar uchder o 1,100 milimedr o leiaf.

A yw'r rhwystr o gryfder digonol (dydy cadwyni, rhaffau a deunyddiau ystwyth a hyblyg eraill heb eu tensiynu ddim yn addas)?

(NODER: Nid yw'r uchod yn gymwys a pherthnasol i ymylon ar doeau neu i leoedd lle does dim mynediad cyffredinol. Serch hynny, dylid darparu ffensys diogel a chadarn lle bo modd).

Symud Ffensys neu Gaeadau Dros Dro

Os yw'r ymyl yn cael ei defnyddio i drosglwyddo nwyddau neu ddeunydd:

- a oes ffens o'i hamgylch mor bell ag sy'n bosibl?
- os oes angen, a oes gafaelion llaw wedi'u darparu?

Ysgolion Gosod Sefydlog

(Dim ond os bydd ar ongl o lai na 15º i'r fertigol yn unig y bydd hyn yn gymwys a pherthnasol.)

- A yw ysgolion gosod sefydlog o saernïaeth ac adeiladwaith cadarn neu yn cael eu cynnal a'u cadw yn briodol ac wedi'i gosod a'u sefydlogi yn ddiogel?
- A yw'r camfeydd yn ymestyn o leiaf 1,100 milimetr uwchben pen y grisiau (neu a oes gafaelion llaw digonol eraill ar gael)?
- A oes cylchoedd diogelwch wedi'u gosod (neu a oes rhyw system arall sy'n atal cwympo wedi'i sefydlogi yn barhaol)?

(NODER: Dylai'r cylchoedd fod ar gyfyngau o nid mwy na 1,500 milimetr, a dylen nhw ddechrau ar uchder o 2.2 metr).

Gwaith To

Lle mae angen mynediad rheolaidd i doeau:

- a oes mynediad parhaol addas yn cael ei ddarparu?
- a oes mesurau diogelu ffisegol sefydlog er mwyn atal cwympiadau o ymylon a thrwy doeau bregus?
- lle mae angen mynediad achlysurol, a oes mesurau diogelu addas wedi'u darparu (er enghraifft, byrddau cropian, offer mynediad dros dro, ayyb)?

Cwympiadau i mewn i Sylweddau Peryglus

Lle mae risg y gallai person gwympo i mewn i sylwedd peryglus mewn tanc, pwll neu strwythur, a yw wedi'i orchuddio neu'i ffensio yn ddiogel?

Newidiadau Lefel

A yw newidiadau lefel, er enghraifft, grisiau rhwng lloriau sydd ddim yn amlwg, wedi'u marcio er mwyn eu gwneud yn amlwg a hawdd eu gweld?

Staciau a Raciau

A yw deunyddiau a gwrthrychau yn cael eu storio a'u stacio mewn ffordd fel eu bod yn annhebygol o gwympo ac achosi anaf?

A yw'r raciau o gryfder a sefydlogrwydd digonol?

Llwytho neu Ddadlwytho Cerbydau

A yw'r angen am i bobl ddringo i fyny ar ben cerbydau yn cael ei osgoi cyn belled â phosib?

A yw ffensys yn cael eu darparu lle mae mynediad yn cael ei ddarparu i ben tancer?

Pan fydd raid i lorïau fod dan orchudd neu lieiniau, a oes rhagofalon addas ar waith yn erbyn cwympiadau?

Mesurau a Chamau ac eithrio Ffensys, Gorchuddion ayyb.

Pan does dim modd darparu ffensys neu orchuddion, a oes mesurau effeithiol eraill (er enghraifft, systemau atal cwympo)?

Os felly, a oes gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth ddigonol yn cael eu darparu?

Sgaffaldiau

A yw sgaffaldiau ayyb yn bodloni gofynion Rheoliadau Gweithio ar Uchder?

FFENESTRI A DRYSAU, GATIAU, A WALIAU TRYLOYW, NEU LED DRYLOYW (RHEOLIAD 14)

A yw'r arwynebau wedi'u gwneud o ddeunydd diogelwch, neu yn cael eu diogelu'n ddigonol yn erbyn torri a difrodi yn yr achosion canlynol:

- mewn drysau a/neu gatiau pan mae arwyneb tryloyw ar lefel yr ysgwydd neu yn is na hynny?

- mewn ffenestri, waliau a pharedau pan mae unrhyw ran o'r arwyneb tryloyw ar lefel y wasg neu ganol neu yn is na hynny (ac eithrio mewn tai gwydr lle byddai pobl ynddyn nhw yn debygol o fod yn ymwybodol o bresenoldeb gwaith gwydr)?

  (NODER: Nid yw'r paragraff yma'n berthnasol i gwareli cul hyd at 250 milimetr o led).

Dyma beth yw deunyddiau diogelwch:

Deunyddiau sy'n gadarn a chryf yn eu hanfod, er enghraifft: plocynnau polycarbonad neu wydr.

Gwydr sydd, o'i dorri, yn torri yn ddiogel, er enghraifft: gwydr wedi'i lamineiddio neu wydr gwydn.

Gwydr wedi'i anelio cyffredin sy'n bodloni'r meini prawf trwch canlynol:

Trwch Enwol	**Maint Uchaf**
8 milimetr	1.10 metr x 1.10 metr
10 milimetr	2.25 metr x 2.25 metr
12 milimetr	3.00 metr x 4.50 metr
15 milimetr	Unrhyw faint

(Mae sgrin neu rwystr yn ddewisiad posibl arall yn lle defnyddio deunydd diogelwch).

A yw arwynebau ac wynebau tryloyw neu led dryloyw wedi'u marcio a'u nodi er mwyn eu gwneud yn weladwy?

FFENESTRI, FFENESTRI TO AC AWYRYDDION (RHEOLIAD 15)

O ran y rheiny sy'n agor, a oes modd eu hagor yn ddiogel? Er enghraifft:

- a yw polion ffenestri ayyb ar gael yn ôl y gofyn?
- a oes llwyfan sefydlog a chadarn, neu fynedfa ddiogel arall, yn cael ei darparu?
- a yw rheolyddion a theclynnau rheoli wedi'u lleoli a'u gosod yn y fath fodd fel bod pobl ddim yn debygol o gwympo drwy'r ffenest neu allan ohoni?
- lle mae perygl o gwympo o uchder, a yw dyfeisiau yn cael eu darparu er mwyn atal y ffenest rhag agor yn rhy bell?

- a yw pob un o'r holl ffenestri ayyb o'r fath fel eu bod nhw ddim yn ymestyn i fan lle mae pobl yn debygol o wrthdaro â nhw?
- a yw ymyl waelod ffenestr sy'n agor 800 milimetr o leiaf uwchben lefel y llawr (ac eithrio bod rhwystr er mwyn atal pobl a phethau rhag cwympo)?

GALLU I LANHAU FFENESTRI ayyb YN DDIOGEL (RHEOLIAD 16)

A oes modd glanhau ffenestri neu ddrysau yn ddiogel os nad oes modd eu glanhau o lefel y tir neu o arwyneb addas arall? Er enghraifft:

- ffenestri y gellir eu glanhau yn ddiogel o'r tu mewn
- offer a chyfarpar mynediad megis crudiau crog, neu ysgolion teithiol gydag atodiad ar gyfer harnais ddiogelwch
- addas ar gyfer defnyddio offer mynediad symudol, gan gynnwys ysgolion hyd at 9 metr o hyd (er enghraifft mynediad digonol ar gyfer yr offer, ac arwyneb cadarn a lefel mewn lle diogel i roi'r ysgol i sefyll arni)
- pan mae angen ysgolion, a oes pwyntiau a mannau addas ar gyfer clymu neu osod?
- pwyntiau a mannau angori addas ar gyfer harneisiau diogelwch

TREFNIADAETH AYYB LLWYBRAU TRAFFIG (RHEOLIAD 17)

Er enghraifft:

- a oes gwahaniad digonol rhwng cerbydau a cherddwyr?
- a yw llwybrau traffig a ddefnyddir gan bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad dirwystr, ac a yw rampiau'n cael eu darparu yn ôl yr angen?
- a oes cyfyngiadau a therfynau cyflymdra synhwyrol wedi'u gosod a'u pennu ac yn cael eu dangos yn glir?
- a oes mesurau arafu cyflymder addas (er enghraifft twmpathau ffordd) yn cael eu darparu lle bo angen hynny? Os felly, a ydyn nhw'n cael eu rhagflaenu gan arwydd rhybuddio neu gan nod neu farc ar y ffordd?
- a yw llwybrau traffig a ddefnyddir gan gerbydau yn ddigon llydan i ganiatáu i gerbydau sy ar ddod tuag atoch fynd heibio?

- a oes systemau rheoli traffig addas ar waith?
- a oes mannau a phwyntiau croesi priodol yn cael eu darparu lle mae llwybrau cerddwyr a cherbydau yn cwrdd?

DRYSAU A GATIAU (RHEOLIAD 18)

A oes paneli tryloyw gan ddrysau, gatiau a chlwydi sy'n siglo i'r ddau gyfeiriad?

A fyddai modd gweld person sy'n defnyddio cadair olwyn o'r ochr arall?

Drysau llithro: A oes dull effeithiol i atal drws rhag dod oddi ar ben trac neu gledr, neu rhag ymadael â'r trac neu'r gledr?

Drysau sy'n agor ar i fyny: A oes dyfais effeithiol er mwyn eu hatal rhag cwympo yn ôl mewn ffordd sy'n debygol o achosi a pheri anaf?

Drysau a weithredir â phŵer: A oes dull atal anafiadau? Er enghraifft:

- ymyl sensitif neu synhwyrydd addas
- dyfais i gyfyngu ar y grym cau
- teclyn rheoli gweithredu rhaid ei ddal yn ei le yn ystod y symud cau cyfan

A yw teclynnau rheoli yn rhwydd eu hadnabod a chael mynediad atyn nhw?

A oes modd agor y drysau os bydd y pŵer yn methu?

Os oes rhaid cael teclyn er mwyn agor â llaw, a yw ar gael yn rhwydd bob amser?

GRISIAU SYMUDOL A LLWYBRAU SYMUDOL (RHEOLIAD 19)

A yw grisiau symudol a llwybrau symudol yn gwneud y canlynol:

- gweithredu a gweithio yn ddiogel?
- bod â'r dyfeisiau diogelwch angenrheidiol?
- bod â theclynnau rheoli stopio brys sy'n rhwydd eu hadnabod ac ar gael yn hawdd?

CYFLEUSTERAU YMOLCHI A THAI BACH (RHEOLIADAU 20 A 21)

A oes cyfleusterau ystafell ymolchi digonol a hygyrch sy'n rhwydd mynd atyn nhw?

Ydyn nhw'n addas? Er enghraifft:

- yn cael eu hawyru yn ddigonol (fel na fydd arogleuon annymunol yn llechu, nac yn mynd i mewn i ystafelloedd eraill)
- yn cael eu goleuo yn ddigonol
- yn cael eu cadw'n lân

A oes cyfleusterau ymolchi a golchi digonol yn cael eu darparu a'u cyflenwi?

Ydyn nhw'n addas? Er enghraifft:

- yn ardal a chyffiniau cyfagos pob cyfleuster ystafell ymolchi
- yn agos i unrhyw ystafell newid sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau
- maen nhw'n cynnwys cyflenwad digonol o ddŵr glân poeth ac oer, neu gynnes
- maen nhw'n cynnwys sebon neu ddulliau addas eraill o lanhau
- maen nhw'n cynnwys tywel neu ddulliau addas eraill o sychu
- mae'r ystafelloedd sy'n eu cynnwys yn cael eu hawyru a'u goleuo yn ddigonol, ac yn cael eu cadw yn lân ac yn daclus

A oes cyfleusterau ar wahân yn cael eu darparu a'u cyflenwi i ac ar gyfer dynion a menywod (ac eithrio lle maen nhw'n cael eu darparu mewn ystafell a fwriadwyd ar gyfer dim ond un person yn unig ar y tro a'r pryd ac y mae modd ei gloi o'r tu mewn), ac a oes preifatrwydd ar gyfer y sawl sy'n eu defnyddio?

A oes cawodydd neu faddonau yn cael eu darparu lle mae'r gwaith yn arbennig o lafurus neu fudr neu y mae'n arwain at halogi'r croen gan ddeunyddiau niweidiol neu fygythiol?

A yw'r nifer leiaf gofynnol o gyfleusterau ystafell ymolchi a gorsafoedd golchi canlynol yn cael ei darparu (pan gaiff llety ar wahân ei ddarparu ar gyfer dynion a menywod, dylid gwneud cyfrifiad ar wahân ar gyfer pob grŵp)?

NIFER Y BOBL YN Y GWAITH	NIFER Y TOILEDAU A CHLOSEDAU DŴR	NIFER Y GORSAFOEDD GOLCHI
1-5	1	1
6-25	2	2
26-50	3	3
51-75	4	4
76-100	5	5

Ar gyfer llety glanweithiol a gaiff ei ddefnyddio gan ddynion yn unig, mae modd defnyddio'r canlynol yn ddewis amgen yn lle Colofn 2 uchod:

NIFER Y BOBL YN Y GWAITH	NIFER Y TOILEDAU A CHLOSEDAU DŴR	NIFER YR WRINALAU A THROETHFEYDD
1-15	1	1
16-30	2	1
31-45	2	2
46-60	3	2
61-75	3	3
76-90	4	3
91-100	4	4

DŴR YFED (RHEOLIAD 22)

A oes cyflenwad digonol o ddŵr yfed iachus (gorau oll o bibellau codi dŵr)?

A yw:

- yn hygyrch ac ar gael yn rhwydd mewn lleoedd addas?
- wedi'i farcio'n amlwg?

Os daw o sistern neu danc, a yw'r sistern neu danc wedi'i orchuddio yn dda ac yn cael ei lanhau, ei brofi, a'i ddiheintio yn rheolaidd?

A oes tapiau dŵr yfed wedi'u gosod lle mae halogi yn annhebygol (os yn rhesymol ymarferol, nid mewn llety glanweithiol)?

Pan na ddaw'r cyflenwad drwy gyfrwng ffynnon yfed, a oes cwpanau yn cael eu darparu?

LLETY AR GYFER DILLAD (RHEOLIAD 23)

A oes llety yn cael ei ddarparu ar gyfer dillad personol nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y gwaith (er enghraifft bachyn neu beg mewn lle glân, cynnes, wedi'i awyru yn dda)?

A oes llety yn cael ei ddarparu ar gyfer dillad arbenigol dydy gweithwyr ddim yn mynd â nhw adref gyda nhw (er enghraifft dillad diogelu personol)?

CYFLEUSTERAU NEWID DILLAD (RHEOLIAD 24)

A oes y fath gyfleusterau lle mae rhaid gwisgo dillad arbenigol ar gyfer y gwaith, a lle nad oes modd disgwyl, am resymau iechyd neu briodoldeb, i'r person newid mewn ystafell arall?

Pan gaiff cyfleusterau eu darparu, a oes mesurau a chamau effeithiol er mwyn sicrhau diogelwch dillad personol (er enghraifft locer y mae modd ei gloi)?

CYFLEUSTERAU AR GYFER GORFFWYS AC I FWYTA PRYDAU BWYD (RHEOLIAD 25)

A oes cyfleusterau gorffwys addas a digonol yn cael eu darparu? Er enghraifft:

- seddau ar gyfer gweithwyr sy'n gorfod sefyll er mwyn gwneud eu gwaith
- seddau i'w defnyddio yn ystod seibiannau ac egwyliau (mewn swyddfeydd ayyb fe fydd seddau gwaith yn yr ardal waith yn ddigonol fel arfer
- mannau gorffwys ar gyfer gweithwyr sy'n gorfod ymadael â'r ardal waith yn aml
- cyfleusterau ar gyfer gweithwyr sy'n bwyta prydau bwyd yn y gwaith yn rheolaidd, a lle byddai bwyd yn cael ei halogi fel arall (mae modd cyfrif seddau mewn ardaloedd gwaith yn gyfleusterau bwyta ar yr amod fod yr ardal neu ardal yn ddigon glân a bod yno arwyneb addas i osod bwyd arno)
- dylai cyfleusterau bwyta cynnwys modd i baratoi neu gael diod boeth (er enghraifft tegell drydan)
- dylid darparu modd i weithwyr sy'n gweithio yn ystod oriau neu mewn lleoedd lle nad oes modd cael bwyd poeth yn y gweithle, neu'n rhesymol agos ato, gynhesu eu bwyd eu hunain (er enghraifft popty microdon)
- dylid cadw cyfleusterau bwyta yn lân, i safon hylendid addas

- dylid cynnal a chadw safonau hylendid da lle mae bwyd neu ddiod yn cael eu paratoi

A oes cyfleusterau ar gyfer menywod beichiog neu famau sy'n bwydo o'r fron?

A ydyn nhw wedi'u lleoli yn gyfleus mewn perthynas â chyfleusterau glanweithiol?

A ydyn nhw'n cynnwys y cyfleuster i orwedd i lawr, os oes angen hynny?

Lle nad yw ysmygu wedi'i wahardd yn ôl y gyfraith, er enghraifft gan breswylwyr cartrefi gofal, dylid trefnu mannau neu ystafelloedd gorffwys er mwyn atal y rheiny sydd ddim yn ysmygu rhag cael profiad anghysurus o fwg tybaco, er enghraifft:

- lle mae ardal neu ystafell ysmygu yn cael ei darparu ar gyfer preswylwyr, dylid gofalu i sicrhau fod ardal neu ystafell orffwys ddi-fwg ar wahân ar gael ar gyfer gweithwyr
- dylid sicrhau bod unrhyw ardaloedd ysmygu ar gyfer staff a/neu ymwelwyr wedi'u lleoli yn ddigon pell i ffwrdd o ardaloedd neu ystafelloedd gorffwys i atal mwg rhag mynd i mewn iddyn nhw drwy ddrysau neu ffenestri

POBL AG ANABLEDDAU (RHEOLIAD 25A)

Dylai fod pobl ag anableddau allu cael mynediad i gyfleusterau mewn safleoedd, a'u defnyddio. Dylid dylunio safleoedd newydd er mwyn rhoi sylw ac ystyriaeth i anghenion pobl anabl, ond mae'n bosibl efallai y bydd angen i gyflogwyr wneud newidiadau i safleoedd sy'n bodoli eisoes er mwyn rhoi sylw ac ystyriaeth i anghenion pobl anabl. Mae modd i hyn gynnwys:

- cymryd i ystyriaeth strwythur adeilad, er enghraifft, newidiadau lefel, grisiau, allanfeydd argyfwng, neu ddrysau cul
- sicrhau bod canllaw ar gael ar gyfer cymorth ar risiau, gan y bydd rhai pobl anabl penodol sy'n gallu cerdded yn cael llai o anhawster i gymryd rhes o risiau yn hytrach na ramp
- osgoi drysau trwm, toiledau anhygyrch, neu oleuo amhriodol
- darparu toiledau addas ar gyfer pobl anabl sy'n gallu cerdded a defnyddwyr cadair olwyn hefyd
- darparu drysau sy'n agor tuag allan
- darparu gweithfannau addas

RHESTR WIRIO I REOLWYR

	✓ Fel y bo'n briodol		
	Dd/B	✓	X
• A oes camau gweithredu yn cael eu cymryd i sicrhau bod y 'safonau' sydd wedi'u nodi yn Atodiad A y polisi ar waith yn y gweithle?			
• A yw gweithwyr wedi cael gwybod am ofynion Atodiad A er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod pa safonau rhaid i gyflogwyr eu rhoi ar waith yn y gweithle?			
• Oes cofnodion priodol yn cael eu cadw?			
• Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni?			

Wedi'i llenwi gan:_____ Wedi'i gadarnhau gan: _____
(Llofnod) (Llofnod)

Enw: _____ Enw: _____
(Llythrennau bras) (Llythrennau bras)

Swydd: _____ Swydd: _____

Dyddiad: _____ Dyddiad: _____